



Partneriaeth SMART – Business Butler a Met Caerdydd

Cwmni technoleg Cymreig newydd yn creu un o sgysfotiau busnes deallus cyntaf y DU, diolch i gymorth arloesi Llywodraeth Cymru.



Mae plattform Business Butler ar y we yn helpu BBACh i gael cyngor a chymorth dibynadwy, perthnasol a diduedd.

Mae Partneriaethau SMART Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ariannol i gwmnïau er mwyn galluogi iddynt gyflawni prosiectau arloesol sy'n gofyn am amrywiaeth o arbenigeddau i lwyddo. Mae'r cymorth hwn yn helpu i gynyddu capasiti a gallu busnesau Cymreig i ddatblygu a masnacheiddio cynnyrch neu dechnoleg trwy hwyluso cydweithio academiaidd ar brosiect penodol.

Amserlen y Prosiect:

- **Medi 2018:** Partneriaid Business Butler yn clustnodi'r angen am sgysfot ac yn troi at Ganolfan Ymchwil a Menter Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
- **Chwefror 2019:** Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd rhwng Business Butler a Met Caerdydd, cyflwynwyd cais i'r rhaglen bartneriaeth SMART.
- **Mawrth 2019:** Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r cais a darparodd gyllid i Business Butler gyflogi a hyfforddi cydymaith o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.
- **Ebrill – Mai 2019:** Dechreuodd Met Caerdydd broses i recriwtio datblygwyr cyswllt.





Caiff Business Butler ei weithredu gan uwch dîm rheoli bach ond profiadol iawn.

Un stori am lwyddiant o'r fath yw Business Butler, cwmni technoleg newydd yn Abertawe sydd wedi datblygu un o sgysfotiau busnes deallus cyntaf y DU ar ôl i bartneriaeth SMART â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ei gynorthwyo i ddenu gwybodaeth arbenigol i'r tîm.

Mae plattfform gwe Business Butler yn cysylltu defnyddwyr busnesau bach â phobl broffesiynol ac arbenigwyr priodol cymeradwy yn eu hardal leol. Fe'i dyluniwyd yn benodol i helpu busnesau bach a chanolig i ddod o hyd i gyngor a chymorth perthnasol a diduedd y gallant ymddiried ynddo'n hwylus ac yn gyflym. Mae'r meysydd arbenigedd yn amrywio o gymorth cyfreithiol ac ariannol i ysgrifennu copi, rheoli a dylunio, gyda'r bwriad o helpu busnesau bach i dyfu a hyrwyddo entrepreneuriaeth.

Cyflawnwyd y gwaith ar y cyd ag Adran Cyfrifiadureg Prifysgol Metropolitan Caerdydd a ddarparodd gydymaith penodol i weithio ar waith codio a datblygu'r sgysfot mewn partneriaeth â'r cwmni. Cyflawnwyd hyn gyda chefnogaeth ac arweiniad dau uwch academydd ym maes cyfrifiadureg, Dr Simon Thorne a Dr Imtiaz Khan.

Wrth drafod manteision Partneriaethau SMART i Met Caerdydd, dywedodd Dr Simon Thorne: "Mae cydweithio â'r byd busnes mewn prosiect hynod arloesol o'r byd go iawn fel yr un yma'n waith diddorol ac ymestynnol. I'r brifysgol, mae'r cyllid yn fantais faterol sy'n helpu i ddatblygu gwaith ymchwil. Mae'n ein galluogi i gyfoethogi ein gwybodaeth ni ein hunain, gan ddefnyddio offer newydd mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae llawer o'n gwaith gyda Business Butler wedi cael ei ymgorffori i fy ngwaith addysgu ym maes deallusrwydd artiffisial erbyn hyn fel bod y myfyrwyr yn elwa o'r profiad hwnnw'n uniongyrchol."

Dr Simon Thorne, Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadureg a Systemau Gwybodaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Amserlen y Prosiect:

- **Mai 2019:** Ymunodd Ben Hayes, myfyriwr cyfrifiadureg yn ei flwyddyn olaf, â thîm Business Butler fel datblygwr meddalwedd.
- **Mehefin – Awst 2019:** Ymchwiliwyd a chywreiniwyd syniad a gofynion y sgysfot.
- **Medi 2019:** Clustnodwyd yr offer oedd eu hangen ar gyfer rhaglen y sgysfot. Recriwtiwyd Ben Hayes fel datblygwr llawn-amser gyda Business Butler.
- **Hydref 2019 – Ionawr 2020:** Cyfnod datblygu'r sgysfot.
- **Ebrill 2020:** Lansiodd Business Butler eu Bot cyntaf, 'Boris', i ddarparu'r cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer busnesau yn ystod pandemig y coronafeirws.
- **Gorffennaf 2020:** Cyflwynodd Business Butler eu hail Fot, 'Penny'.
- **Medi 2020:** Lansiodd Business Butler eu trydydd Bot, 'Grant'.

Ers meithrin y cysylltiad â'r Bartneriaeth SMART, mae Business Butler wedi cyflogi rhagor o aelodau i'w dîm ac mae maint y cwmni wedi dyblu ers Mawrth 2020. Mae rhagor o rolau ar y gweill yn unol â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â'r nod o helpu i greu Cymru fwy llewyrchus. Mae'r gwasanaeth sgysfot newydd yn helpu i leihau'r teithiau rhwng arbenigwyr a chleientiaid am fod y platfform yn darparu mynediad at arbenigwyr cymeradwy yn eu hardal leol a gwybodaeth amdanynt. Mae hyrwyddo llai o deithio fel hyn yn cyfrannu at lesiant amgylcheddol Cymru, ac mae datblygu cynaliadwy'n rhan allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

"Mae'r cymorth ariannol a thechnegol a gafwyd trwy'r bartneriaeth SMART â Phrifysgol Met Caerdydd wedi helpu i drawsnewid y busnes i fod ar flaen y gad yn y diwydiant. Heblaw am wybodaeth ac arbenigedd ein cydymaith, Ben Hayes, ni fyddai wedi bod yn bosibl i ni greu'r gwasanaeth sgysfot 24/7 sy'n caniatáu i ni gynnig cyngor busnes perthnasol a diduedd ar gyfer BBaCh a busnesau newydd."

"Mae Ben, ein datblygwr cyswllt, bellach yn aelod llawn-amser o'r tîm fel y gallwn ddefnyddio ei sgiliau technoleg ar draws y busnes. Rydyn ni mor falch â'r canlyniad, rydyn ni eisoes yn gwneud cynlluniau i chwarae rhan mewn Partneriaeth SMART arall â Phrifysgol Abertawe yn y dyfodol. "

Bhupinder Sidhu, Prif Weithredwr Business Butler



Mae Business Butler yn cysylltu busnesau bach gyda gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr profiadol sydd wedi'u fetio o fewn eu hardal leol.

**Busnes | Business
Cymru | Wales**

Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**